Healthy Air
Awyr Iach
Cymru

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddeddf Aer Glan i Gymru

# Cross Party Group Clean Air Act for Wales

12:15 – 13:15
08.02.2021

Cyfarfod rhithwir trwy Teams
Virtual Meeting using Teams

## Agenda

1. Cadeirydd, Dr Dai Lloyd AS: Croeso a chyflwyniadau

   Chair, Dr Dai Lloyd MS: Welcome and Introductions

Ymddiheuriadau:

Gemma Roberts BHF
Llyr Gruffydd AS

Yn bresennol:

Dai Lloyd AS, Cadeirydd
Mathew Norman, Ysgrifennydd ar ran Awyr Iach Cymru (Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yng Nghymru)
Joseph Carter, Asthma UK-Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yng Nghymru
Huw Irranca-Davies AS
Jenny Rathbone AS
Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Ioan Bellin, Senedd Cymru
Huw Brunt, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Callum Littlemore, Asthma UK-Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yng Nghymru
Y Cynghorydd Huw David
Marc Evans, Senedd Cymru
Haf Elgar, Awyr Iach Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru
Roger Herbert
Paula Renzel, Sustrans Cymru
Verity Pownall
Y Cynghorydd Jane Pratt
Rhiannon Hardiman, Living Streets
Olwen Spiller
Paul Wills
Yr Athro Paul Lewis

Cadeirydd:

Croeso, bawb, i'r cyfarfod.

Dau gyflwyniad rhagorol a sesiwn holi ac ateb ac mae amser yn brin.

Dechrau gyda'r Gweinidog:

2. Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Cyflwyniad i'r Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) a lansiwyd yn ddiweddar (10 munud)

   Lesley Griffiths MS, Minister for Environment, Energy and Rural Affairs: An introduction on the recently launched Clean Air (Wales) Bill White Paper (10 Minutes)

Rhaid i'r Gweinidog adael erbyn 12:35 a bydd y staff yn aros ymlaen.

Gweinidog: Helo bawb

Rwyf am ailadrodd fy safle i a'r Llywodraeth ar y materion hyn.

Ers ein cyfarfod diwethaf, dyddiad cau'r papur gwyn yw 7 Ebrill.

Mae'n ymrwymiad mawr i ni ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer deddf aer glân.

Mae’n siomedig nad oeddem yn gallu gwneud hyn yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae’n cyflwyno’r safonau ansawdd aer mwyaf effeithiol yn gyfraith.

Mae angen i bob un ohonom anadlu aer glân, ac rydym am helpu i leihau'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd a lleihau anghydraddoldeb.

Mae nifer o gynigion wedi’u nodi yn y papur.

Gosod targed ansawdd aer ar gyfer PM a chyfrif ar gyfer y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf a chanllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd.

Adolygiadau rheolaidd gan arbenigwyr annibynnol er mwyn cael y gwaith craffu gorau, ac adolygu’r cynllun aer glân bob pum mlynedd.

Dyddiadau cydymffurfio tybiedig ar gyfer cyrraedd targedau a chwrdd â busnesau i drafod ar y cyd.

Codi tâl mewn perthynas â pharthau aer glân a mynd i'r afael â cherbydau segur, gan gynyddu'r cosbau y gallant eu rhoi.

Rheoli a gorfodi gwell.

Dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus a phreifat i annog newid ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r Papur Gwyn yn canolbwyntio ar leihau llygredd a llygredd sŵn.

Deddf yn nhymor y Senedd hon – problemau digynsail – bu’n rhaid blaenoriaethu Brexit a Covid.

Datblygu deddf aer glân cyn gynted â phosibl.

Diolch i'r tîm – roedd yn hynod anodd a heriol i’w gyhoeddi cyn yr etholiad.

Capasiti presennol y gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi’u hymestyn i’r eithaf.

Sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

Mae llawer o wersi i’w dysgu o’r pandemig.

Gweithio tuag at yr adferiad gwyrdd trwy’r ymddygiadau newydd a ddysgwyd. Y ffordd rydyn ni'n teithio, y ffordd rydyn ni'n gweithio, y ffordd rydyn ni'n gwneud ymarfer corff.

Mae canfyddiad y cyhoedd wedi newid yn ystod y cyfnod clo.

Beth am fynd â'r cyhoedd gyda ni ychydig yn fwy i annog awydd am amgylchedd glanach? Cynnal yr ymddygiadau cadarnhaol hynny.

Y cam nesaf ar gyfer y Ddeddf Aer Glân yw ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad y papur gwyn ar aer glân a ddaw i ben ar 7 Ebrill.

Mae gwaith drafftio’r Bil yn dechrau ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf, gan gyflawni’r llwybr i ddarparu’r gwaith aer glân i Gymru.

Diolch am y consensws eang ac am gwrdd gyda'n gilydd i fynd i’r afael â'r heriau.

Rwy’n awyddus i glywed eich barn. Diolch Dai.

3. Q&A and discussion with the Minister on Clean Air (Wales) Bill White Paper (15 - 20 minutes)

   Sesiwn holi ac ateb a thrafodaeth â'r Gweinidog ar y Papur Gwyn ar Fil Aer Glan (Cymru) (15 - 20 munud)

Cadeirydd: Diolch, Weinidog, byddaf yn cymryd cwestiynau nawr gan Jenny Rathbone AS:

Jenny Rathbone:

Diolch am eich ymrwymiad gwirioneddol i annog cynnydd ar y pwnc hwn. Roeddwn i’n meddwl tybed sut y gallwn ni oresgyn amharodrwydd awdurdodau lleol i fynd i'r afael â modurwyr. Yr ymddygiad arferol a rhagweladwy i fodurwyr.

Hyd yn oed lle ceir dewisiadau amgen.

Cadeirydd: Weinidog, a hoffech chi ymateb?

Gweinidog: Mae’n ymwneud â chanfyddiad y cyhoedd hefyd – barn un blaid am y papur gwyn yw ei fod yn cael ei ystyried yn dâl a godir ar gefnffyrdd. Mae'r rhain yn drafodaethau y byddwn yn parhau i'w cael wrth i ni edrych ar ddatgarboneiddio ac ansawdd aer, mae'n wirioneddol ddigalon bod pobl yn cefnu arnynt.
Ni allwn ganiatáu i bobl farw oherwydd ansawdd aer mwyach.

Mae’n rhwystredig dros ben nad yw pobl yn cadw at y terfynau 50mya ar y ffyrdd. Rwy'n cofio'r arwyddion hynny bod ansawdd aer gwael yn lladd. Roedd yn anodd cyfleu'r geiriad hwnnw, ond roedd angen iddo fod yn drawiadol.

Rydym wedi cael rhai trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol a rhywfaint gyda Chaerdydd i lansio'r cynllun aer glân yn Stryd y Castell er mwyn dangos nad yw'r byd yn gorffen gyda deddfwriaeth newydd ac mae angen i ni sicrhau bod y drafnidiaeth gyhoeddus yn iawn.

Mae llawer o bobl yn hapus gyda'r cyfleoedd y mae hyn wedi'u cyflwyno.

Mae llawer o gyfleoedd wedi codi o’r pandemig.

Pan edrychwn ar ailgylchu a sut y gwnaethom fentro mynd â'r cyhoedd gyda ni, mae angen i ni fynd yn ôl at yr hyn yr oedd gennym 20 mlynedd yn ôl.

Roedd pobl yn ailgylchu poteli gwydr ac roeddem yn ailddefnyddio mwy ac yn defnyddio llai o blastig. Mae'r un meddylfryd yn berthnasol yma, lle mae'n rhaid i ni ddefnyddio ceir yn llai aml a defnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

Cadeirydd: Diolch Weinidog. Os nad ydym yn derbyn dŵr budr, pam y dylem dderbyn aer budr?

Unrhyw gwestiynau eraill i'r Gweinidog?

Gweinidog: Mae hynny'n bwynt da ynglŷn â dŵr a sut nad yw pobl yn ystyried bod hynny’n dderbyniol a pham mae'r gymhariaeth yn bwysig iawn.

Cadeirydd: Gan nad oes cwestiynau i’r Gweinidog, byddaf yn gadael i chi fynd.

Diolch, Weinidog.

Gweinidog: Diolch, Gadeirydd a diolch am fy ngwahodd i gymryd rhan yn y Grŵp Trawsbleidiol hwn.

Cadeirydd: Gan ddiolch i'r Gweinidog, edrychwn ymlaen yn awr at gyflwyniad Joseph Carter, ewch amdani Joseph:

4. Holi ac ateb a thrafodaeth gyda Joseph Carter ar ddyfodol Deddf Aer Glân Cymru yn nhymor nesaf y Senedd (10-15 munud)

   Q&A and discussion with Joseph Carter on the future of the Clean Air Act for Wales in the next Senedd term (10 – 15 minutes)

Joseph (ar ran Awyr Iach Cymru): Diolch am fod mor garedig ac am fod mor drefnus.

(Anfonir y cyflwyniad gyda'r cofnodion)

Mae'n bleser mawr eich gweld chi i gyd yma heddiw a diolch i'r Gweinidog am fod yn bresennol. Gan eich bod chi i gyd yma, mae'n bwysig lansio ein maniffesto.

Dw i'n mynd i rannu fy sgrin.

Felly roeddwn i eisiau siarad â chi am rannau allweddol y Maniffesto.

Sefydlwyd yn 2017 i lunio maniffesto clymblaid.

Mae gennym un prif nod, sef cyflawni'r Ddeddf Aer Glân.

Mae hyn yn rhywbeth yr ydym i gyd ar yr un dudalen yn ei gylch.

Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth nesaf, ar gyfer y 100 diwrnod cyntaf.

Mae'r Maniffesto yn tynnu sylw at pam yr ydym yn galw am gyflawni'r Ddeddf ac yn tynnu sylw at ein prif flaenoriaethau fel clymblaid.

Joseph yn darllen y cyflwyniad (caiff ei anfon gyda'r cofnodion).

Namau technegol – nid yw'r sleidiau'n symud

Mae ein maniffesto yn gofyn am bum prif beth – fframwaith cyfreithiol newydd

Oni bai ein bod yn deall yn iawn beth sy'n digwydd ledled Cymru ac yn cofnodi’r wybodaeth leol, ni fyddwn yn cael y darlun llawn o ran effaith llygredd aer yng Nghymru.
Ein prif ffocws yw sicrhau Cymru iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, sy’n ymwneud â'r mater a godwyd gan Jenny. Mae hyn yn rhywbeth y mae Huw wedi sôn amdano o'r blaen, drwy fynd ati i gerdded a seiclo, a gyrru llai.

Rydym hefyd yn galw am gyfoethogi cymunedau, gan annog pobl i gerdded, rhedeg a seiclo mewn mannau agored iachach. Mae'n ymwneud â chynllunio, sicrhau mynediad i fannau gwyrdd o fewn pum munud a chreu cymuned sydd wedi'i hymgorffori â'r ymddygiadau cadarnhaol hyn.

Mae hyn yn rhywbeth y mae Living Streets a Sustrans yn galw amdano.

Dod â hyn i gyd at ei gilydd yw’r her sydd ynghlwm â newid moddol.

Mae'n ymwneud â chefnogi e-feiciau a dyfeisiau eraill. Sut rydym yn ehangu’r dechnoleg a'r asedau a rennir.

Mae cynlluniau fel 'Nextbike' yn agor mwy o opsiynau ar gyfer teithio llesol.

Mae hefyd yn ymwneud â buddsoddi yn ein seilwaith cyhoeddus a chefnogi llwybrau bysiau newydd, a chyda'r ychydig gerbydau preifat sy'n cael eu defnyddio, sicrhau eu bod yn lanach.

Nid oes rhaid i'r cyfan fod yn eitemau mawr.

Mae angen newid cadarnhaol yn gyntaf.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr a phleidiau gefnogi ein nod ar gyfer Deddf Aer Glân i Gymru yn 2021.

Rydym yn dyheu am gyflawni hynny o fewn y 100 diwrnod.

Caiff ei gyflwyno eleni.

Bu llawer o waith anhygoel eisoes.

Mae'r syniadau yno yn y papur gwyn.

Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd fod yn hyrwyddwyr awyr iach yn y Senedd newydd.

Dyna'r Maniffesto.
Bydd yn dod i gynadleddau maes o law.

Rwy’n hapus i gymryd unrhyw gwestiynau, ac yn galw am eich cefnogaeth yn y Grŵp Trawsbleidiol nesaf yn y Senedd newydd.

Cadeirydd: Diolch i chi am gyfleu’r neges.

Mae yna sefyllfa anodd yn y Senedd, Jenny?

Jenny Rathbone AS: Un o’r problemau mawr sy’n ein hwynebu yw rôl llywodraeth y DU ac mae cwestiynau mawr yn codi ynghylch a fyddant yn cydweithredu ynghylch adroddiad Burns, yn hytrach nag adeiladu ffordd arall.

Bydd y nerfusrwydd yn ymwneud â sicrhau bod gennym opsiynau amgen hyfyw. Er mwyn i bobl allu teithio i’r gwaith a’r ysgol a sicrhau eu bod yn eu lle erbyn diwedd y flwyddyn.

Wrth gwrs, y bobl nad ydynt yn bresennol heddiw yw’r bobl nad ydynt yn cefnogi’r Bil neu’r galwadau hyn, felly rwy’n amau y byddwch chi’n clywed unrhyw wrthwynebiad i hyn heddiw.

Cadeirydd: Diolch Jenny, rwy'n hoff o’r pwyslais penodol ar iechyd y cyhoedd ac mae wedi bod yn rhy hir i aer glân fod yn bryder amgylcheddol yn unig. Mae’r broblem wedi parhau am gyfnod rhy hir i gael ei rhoi o’r neilltu ac mae realiti caled materion cyfoes wedi tynnu sylw at effaith ein gweithgarwch neu anweithgarwch fel sydd wedi bod yn digwydd.

Huw Irranca-Davies AS: Rwy’n hoff o’r ffocws ar yr agenda iechyd y cyhoedd ehangach, a dyna pam mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol mor gefnogol hefyd.

Rwy'n eich canmol am yr uchelgais i'w wthio yn gynt.

Mae cyflawni hyn o fewn can diwrnod yn y Llywodraeth newydd yn uchelgeisiol, ond mae'n rhaid i rywun alw amdano ac yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi gweld faint y gellir ei wneud yn gyflym. Felly, rwy’n cymeradwyo eich uchelgais i alw am gyflawni'r Ddeddf mor fuan.

Dyna’r peth iawn i’w wneud, mae Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa iawn ar gyfer hyn, ac mae rhai pethau pragmatig y mae’n rhaid i ni eu cyflawni yn gyntaf. O'r hyn a glywaf gan y Gweinidog a'r sgyrsiau preifat, mae hi'n deall hyn ac mae'n golygu mwy na'r amgylchedd ac mae angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol a galw am fwy. Gallai pethau gael eu rhyddhau, peidiwch â chymryd cam yn ôl ar y sefyllfa hon.
Rydym yn ei gefnogi, gallai gymryd ychydig yn hirach, ond rydym yn eich cefnogi ar hyn. Anelwch am y 100 diwrnod a byddaf yn ymrwymo i hynny yn bersonol hefyd.

Cadeirydd: Unrhyw sylwadau eraill?

Pawb yn hapus?

Joseph, yn ôl atoch chi.

Joseph: Rwy’n ymateb i’r sylwadau hynny, rydym yn ymwybodol o hynny ac y gallai fod yn rhy uchelgeisiol. Ond ein nod yw bod mor uchelgeisiol â phosib, a phan sefydlwyd Awyr Iach Cymru gyntaf a chyflwynwyd y gofynion hyn, ein nod erioed oedd cael Deddf Aer Glân newydd i Gymru.

Rydym wedi’n plesio’n fawr gan gefnogaeth y Gweinidog a’r Prif Weinidog ar gyfer y mater hwn. Rydym yn nodi’r cynnydd rhyfeddol a’u haddewid i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei chyflawni cyn gynted â phosibl trwy ddatgan ei bod yn flaenoriaeth ac yn gynllun allweddol ar gyfer y weinyddiaeth hon. Yn bendant mae cefnogaeth drawsbleidiol ar gael i sicrhau y bydd yn flaenoriaeth i’r weinyddiaeth nesaf ni waeth beth yw’r blaid.

Gyda chefnogaeth ar draws y Siambr, bydd llawer o'r manylion yn yr is-ddeddfwriaeth a byddwn yn dibynnu ar ein ffrindiau yn y Siambr i sicrhau ein bod yn cael y ddeddfwriaeth newydd sydd ei hangen arnom.

Mae'n dda cael pethau yn y boced gefn. Mae pethau ar y gorwel, mae agenda gyffrous iawn ar y gweill, ac mae hwn yn rhywbeth pwysig y mae angen ei weithredu.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r diddordeb a ddangoswyd heddiw a thrwy gydol y tymor hwn.

Rydym yn edrych ymlaen at y Senedd gyffrous sydd o'n blaenau.

Cadeirydd: Diolch yn fawr Joseph ac am nodi nad yw pobl nad ydyn nhw mor gefnogol ac sy’n gwrthwynebu’r ddeddf aer glân yn y cyfarfod heddiw, felly rydych chi ymhlith ffrindiau sy'n cefnogi’ch galwadau. At hynny, os oes angen mwy o gyfreithwyr arnom dylem fuddsoddi mewn cyflogi mwy ohonynt i gyflawni'r Bil hwn.

5. Diwedd y cyfarfod a’r posibilrwydd o ddod â’r Grŵp Trawsbleidiol i ben ar gyfer tymor y Senedd hon.

End of meeting and possible conclusion of the CPG for this Senedd term.

Ardderchog, diolch i chi i gyd, mae’r amserlen yn dynn heddiw felly af ymlaen i gloi’r cyfarfod.

Fel yr ydych wedi sôn yn barod, mae’r etholiad ar 6 Mai, ac os yw'r duedd yn gywir, dyma fydd cyfarfod olaf y Grŵp Trawsbleidiol hwn cyn diddymu'r Senedd.

Mathew, a oes angen sôn am unrhyw beth arall?

Ysgrifenyddiaeth: Dim byd arall i’w nodi, Gadeirydd. Dyma fydd ein cyfarfod olaf cyn yr etholiad. Byddaf yn anfon y cofnodion a'r cyflwyniadau atoch yn ôl yr arfer ac yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu huwchlwytho ar wefan y Senedd. Ar wahân i hynny, dim ond diolch i chi, Gadeirydd.

Huw Irranca-Davies AS: Os caf ymyrryd, hoffwn ddiolch i'n Cadeirydd gwych, Dr Dai Lloyd AS. Mae ei gyfnod fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol hwn wedi

tynnu sylw at lawer o faterion yn ymwneud ag aer glân. Mae wedi dod ag arbenigwyr a sefydliadau fel Awyr Iach Cymru at ei gilydd yn ogystal â Gweinidogion, Aelodau a swyddogion etholedig. Hoffwn ddiolch i chi am eich gwaith, Gadeirydd.

Hoffwn ddiolch hefyd i Mathew a Joseph am gadw trefn ar y digwyddiadau hyn.

Cadeirydd: Diolch Huw ac ie, diolch i Mathew am fod mor drefnus. Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y tymor diwethaf ac edrychaf ymlaen at yr hyn a ddaw yn y tymor nesaf.

Gyda hynny, a heb unrhyw fusnes arall, rwy’n dod â'r cyfarfod a'r Grŵp Trawsbleidiol i ben am y tymor hwn.